

Rhif y Cwmni: 04296436

Rhif yr Elusen: 1093260

**DEDDF CWMNIAU 2006**

**ERTHYGLAU CYMDEITHASIAID  
CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS CLUBS**

---

**Ymgorfforwyd ar Hydref 1<sup>af</sup> 2001**

---

**Geldards**  
law firm

## DEDDF CWMNÏAU 2006

### CWMNI A GYFYNGIR DRWY WARANT A HEB FOD Â CHYFALAF CYFRANNAU

### ERTHYGLAU CYMDEITHASIAID CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS CLUBS

#### 1. ERTHYGLAU ENGHREIFFTIOL

Ni fydd yr Erthyglau Enghreifftiol ar gyfer Cwmnïau Preifat a Gyfyngir Trwy Warant yn nhrefnlen 2 Rheoliadau (Erthyglau Enghreifftiol) y Cwmni 2008 yn gymwys i'r Elusen.

#### 2. AMCANION

Amcanion yr Elusen yw i:

- 2.1 Hyrwyddo gofal ac addysg plant mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol ac i hyrwyddo'r ddarpariaeth o gyfleusterau ar gyfer chwarae, difyrrwch, a gweithgareddau amser hamdden eraill y plant hyn at ddiben lles cymdeithasol gyda'r amcanion o wella cyflwr eu bywydau.
- 2.2 Hyrwyddo addysg a hyfforddiant y bobl hyn gan ddarparu'r gofal a'r cyfleusterau addysgol a difyrrus hyn.
- 2.3 Cynnal ymchwil i'r holl agweddau ar ofal, addysg a difyrrwch y plant hyn ac i gyhoeddi canlyniadau defnyddiol ymchwil o'r fath.

#### 3. PWERAU

Mae gan yr Elusen y pwerau a ganlyn, y gellir eu harfer ddim ond wrth hyrwyddo'r Amcanion:

- 3.1 Hyrwyddo neu gynnal ymchwil
- 3.2 Rhoi cyngor.
- 3.3 Cyhoeddi neu ddosrannu gwybodaeth
- 3.4 Cydweithio â chyrrff eraill
- 3.5 Cefnogi, gweinyddu neu sefydlu elusennau eraill a gweithredu fel ymddiriedolwr yr Elusen.
- 3.6 Codi arian (ond nid drwy **fasnachu trethadwy**).

- 3.7 Benthg arian a rhoi sicrwydd am fenthyciadau (ond ddim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan y **Ddeddf Elusennau**).
- 3.8 Caffael neu hurio eiddo o unrhyw fath.
- 3.9 Gosod neu waredu eiddo o unrhyw fath (ond ddim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan y Ddeddf Elusennau).
- 3.10 Rhoi grantiau neu roi benthg arian a rhoi gwarantau.
- 3.11 Gosod arian o'r neilltu i bwrsasau arbennig neu fel cronfeydd wrth gefn yn erbyn gwariant yn y dyfodol.
- 3.12 Ymgymryd â'r canlynol yn yr un modd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau y mae gan ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth hawl iddynt yn ôl Deddf Ymddiriedolwyr 2000: –
- (a) Adneuo neu fuddsoddi arian;
  - (b) Cyflogi neu benodi rheolwr cronfa broffesiynol neu **arbenigwr ariannol**, a
  - (c) Threfnu bod buddsoddiadau neu eiddo arall yr Elusen yn cael eu cadw yn enw **cwmni a enwebwyd** neu gan **geidwad**.
- 3.13 Yswirio eiddo'r Elusen yn erbyn unrhyw risg y gellir ei rhagweld a chael polisïau yswiriant eraill i ddiogelu'r Elusen pan fyddant yn ofynnol.
- 3.14 Talu **yswiriant indemniad** dros yr Ymddiriedolwyr.
- 3.15 Yn ddarostyngedig i erthygl 4, cyflogi asiantiaid taledig neu ddi-dâl, staff neu gynghorwyr ar delerau priodol.
- 3.16 Dod yn rhan o gontractau i ddarparu gwasanaethau i, neu ar ran, cyrff eraill.
- 3.17 Sefydlu is-gwmnïau i gynorthwyo neu weithredu fel asiantau dros yr Elusen.
- 3.18 Cyfuno neu uno, neu gefnogi, unrhyw sefydliad, cwmni neu fenter arall, y gallai eu hamcanion (ym marn yr Ymddiriedolwyr) gael eu cyfuno â'r Amcanion er mantais.
- 3.19 Talu costau ffurfio'r Elusen.
- 3.20 Gwneud unrhyw beth arall cyfreithlon sydd yn hyrwyddo neu'n helpu i hyrwyddo'r Amcanion.

#### **4. MANTEISION I AELODAU AC YMDDIRIEDOLWYR**

- 4.1 Dylid defnyddio incwm ac eiddo'r Elusen yn unig ar gyfer hyrwyddo'r Amcanion, ac ni ddylai unrhyw ran ohonynt gael eu talu, neu eu trosglwyddo, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, trwy gyfrwng difidendau, bonws neu fel arall er elw, i Aelodau'r Elusen; ac ni ddylai unrhyw Ymddiriedolwr gael ei benodi i unrhyw swydd yn yr Elusen, a fydd wedi ei thalu drwy gyflog neu ffioedd, neu a fydd wedi derbyn unrhyw gydnabyddiaeth na budd arall mewn arian, neu werth yr arian, gan yr Elusen. Cyhyd â bod dim yn y ddogfen hon yn rhwystro unrhyw daliad didwyll gan yr Elusen:

- (a) o'r taliadau proffesiynol arferol a wneir gan unrhyw ymddiriedolwr sydd yn gyfreithiwr, yn gyfrifydd neu'n unrhyw berson arall mewn proffesiwn, neu gan unrhyw bartner iddo ef neu hi, pan gânt eu cyfarwyddo gan yr Elusen i ymddwyn fel gweithiwr proffesiynol ar ei rhan: Hyn, yn unig os nad yw mwyafrif yr ymddiriedolwyr ar unrhyw adeg yn elwa o'r rhagamod hon, a bod ymddiriedolwr yn gadael unrhyw gyfarfod lle trafodir ei b(ph)enodiad neu dâl neu hynny o eiddo ei b(ph)artner.
- (b) o daliad rhesymol a phriodol am unrhyw wasanaethau a roddir i'r Elusen gan unrhyw Aelod, swyddog, gwas yr elusen nad yw'n ymddiriedolwr
- (c) o log ar arian y rhoddwyd ei fenthg gan unrhyw Aelod o'r Elusen neu Ymddiriedolwr yn ôl cyfradd rhesymol a phriodol, heb fod yn uwch na 2 y cant yn llai na chyfradd rhoi-benthg sylfaenol banc clirio i'w ddewis gan yr Ymddiriedolwyr.
- (d) o ffioedd, cydnabyddiaeth neu unrhyw fudd arall mewn arian neu werth yr arian i unrhyw gwmni y gallai ymddiriedolwr hefyd fod yn aelod, yn dal ddim mwy na 1/100<sup>fed</sup> rhan o'r cyfalaf a ryddhawyd o'r cwmni hwnnw.
- (e) o rent rhesymol a phriodol adeilad sydd wedi ei brydlesu neu ei osod gan unrhyw aelod o'r cwmni neu ymddiriedolwr
- (f) treuliau parod rhesymol i unrhyw Ymddiriedolwr
- (g) o unrhyw bremiwm parthed unrhyw yswiriant indemniad i ateb cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr, a fyddent, yn rhinwedd unrhyw reolaeth cyfraith fel arall yn eu priodoli iddynt yn achos unrhyw esgeulustod, diffyg, tor-ymddiriedaeth neu dordyletswydd y byddent yn euog ohono mewn perthynas â'r Elusen: hyn yn unig os nad yw unrhyw yswiriant o'r fath yn ymestyn at unrhyw hawliad yn codi o gyfrifoldeb yn deillio o ymddygiad y gwyddai'r Ymddiriedolwyr, neu lle y mae'n rhaid rhagdybio y byddent yn gwybod, nad oedd er budd yr Elusen, neu lle nad oedd o bwys gan yr Ymddiriedolwyr a oedd er lles yr Elusen neu beidio, ac os nad yw'r yswiriant yn ymestyn at unrhyw hawliad yn deillio o gyfrifoldeb am gostau amddiffyn erlyniadau troseddol yn aflwyddiannus, yn deillio o dwyll, anonestrwydd neu ymddygiad pengaled neu anystyriol yr Ymddiriedolwyr.

4.2 Yn ddarostyngedig i erthygl 4.3, rhaid i unrhyw Ymddiriedolwr sy'n dod yn **Ymddiriedolwr â Buddiannau'n Gwrthdaro** mewn perthynas ag unrhyw fater:

- (a) ddatgan natur a mesur eu buddiannau cyn i drafodaethau ar y mater ddechrau;
- (b) adael y cyfarfod am gyfnod yr eitem honno oni bai eu bod yn cael eu gwahodd yn benodol i aros er mwyn darparu gwybodaeth;
- (c) beidio â chael eu cyfrif yn rhan o'r cworwm yn y rhan honno o'r cyfarfod;
- (d) gadael yn ystod y bleidlais a bod heb bleidlais ar y mater.

4.3 Pan fydd unrhyw Ymddiriedolwr yn Ymddiriedolwr â Buddiannau'n Gwrthdaro, gall yr Ymddiriedolwyr nad ydynt yn Ymddiriedolwyr â Buddiannau'n Gwrthdaro, os ydynt yn ffurfio cworwm heb gyfrif yr Ymddiriedolwr â

Buddiannau'n Gwrthdaro, a'u bod yn fodlon ei bod er budd gorau'r Elusen i wneud hynny, gallant drwy benderfyniad a wneir yn absenoldeb yr Ymddiriedolwr â Buddiannau'n Gwrthdaro, awdurdodi'r Ymddiriedolwr â Buddiannau'n Gwrthdaro, er gwaethaf unrhyw wrthdrawiad budd neu ddyletswydd sydd wedi codi, neu a all godi, yn achos yr Ymddiriedolwr â Buddiannau'n Gwrthdaro, i:

- (a) barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau'n arwain at ddod i benderfyniad a/neu i bleidlais; neu
- (b) ddatgelu i drydydd parti wybodaeth sy'n gyfrinachol i'r Elusen; neu
- (c) gymryd unrhyw gamau heb eu hawdurdodi fel arall, nad ydynt yn golygu derbyn gan yr Ymddiriedolwr â Buddiannau'n Gwrthdaro na Pherson Cysylltiedig unrhyw daliad na budd materol uniongyrchol nac anuniongyrchol (pa un ai o'r Elusen ai peidio); neu
- (d) ymatal rhag cymryd unrhyw gam sy'n ofynnol i gael gwared â'r gwrthdaro

4.4 Ni ellir diwygio'r erthygl 4 hon heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol y Comisiwn.

## 5. CYFRIFOLDEB CYFYNGEDIG

Mae cyfrifoldeb yr Aelodau'n gyfyngedig i £1, sef y swm y mae pob Aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedau'r Elusen petai'n cael ei ddirwyn i ben.

## 6. GWARANT

Mae pob Aelod yn addo, os caiff yr Elusen ei ddiddymu ac ef, hi neu'r corff yn dal yn Aelod neu o fewn 12 mis wedi hynny, y bydd yn talu hyd at £1 tuag at gostau'r diddymu a chyfrifoldebau'r Elusen tra'r oedd y cyfrannwr yn aelod.

## 7. DIDDYMIAD

Os yw'r Elusen yn cael ei dirwyn i ben, neu ei diddymu, ac wedi i'w holl ddyledion a chyfrifoldebau gael eu bodloni, bod unrhyw eiddo'n aros, na chaiff ei dalu, na'i drosglwyddo, i elusen neu elusennau eraill ag Amcanion tebyg i'r Amcanion sy'n gwahardd dosrannu ei/eu hincwm ac eiddo i'r un graddau o leiaf â hynny a osodwyd ar yr Elusen yn erthygl 4 uchod, wedi ei ddewis gan Aelodau'r Elusen ar adeg, neu cyn, y diddymu ac os na ellir gwneud hynny, yna tua at ryw amcan elusennol arall.

## 8. AELODAETH

8.1 Rhaid i'r Elusen gadw cofrestr Aelodau.

8.2 Mae **Aelodaeth** o'r Elusen yn agored i unrhyw unigolyn sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r **Amcanon** sydd:

- (a) yn gymwys i'r Elusen ar ffurf sy'n ofynnol gan yr **Ymddiriedolwyr**;
- (b) wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr; ac

- (c) yn llofnodi'r gofrestr aelodau neu'n cydsynio **yn ysgrifenedig** i ddod yn Aelod.
- 8.3 Gall yr Ymddiriedolwyr sefydlu gwahanol ddsbarthiadau o aelodaeth (yn cynnwys **aelodaeth anffurfiol**) a rhagnodi breiniau a dyletswyddau y rhain yn a phennu symiau unrhyw danysgrifiadau.
- 8.4 Terfynir aelodaeth os yw'r Aelod perthnasol:
- (a) yn rhoi rhybudd **ysgrifenedig** o'u hymddiswyddiad i'r Elusen;
- (b) yn marw, neu yn achos y gyfundrefn, yn peidio â bodoli;
- (c) mewn ôl-ddyledion ers chwe **mis** yn talu'r tanysgrifiad perthnasol (os o gwbl) (ond mewn achos o'r fath mae'n bosibl i'r Aelod gael ei adfer ar dalu'r swm dyledus);
- (d) yn Ymddiriedolwr a'u bod yn ymddiswyddo neu'n ymddeol o fod yn ymddiriedolaeth er y byddant y gymwys i'w hadfer fel Aelod; neu
- (e) yn cael eu symud o fod yn aelodau gan benderfyniad yr Ymddiriedolwyr ar y sail bod, yn eu barn resymol hwy, parhau ag aelodaeth yr Aelod yn niweidiol i'r Elusen. Gall yr Ymddiriedolwyr fabwysiadu penderfyniad o'r fath ddim ond wedi hysbysu'r Aelod yn ysgrifenedig gan yrru atynt yn y cyfeiriad diweddaraf a wyddys ac ystyried y mater yng ngoleuni unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig (os o gwbl) y mae'r Aelod perthnasol yn eu rhoi gerbron o fewn 14 diwrnod clir wedi derbyn rhybudd.
- 8.5 Nid yw aelodaeth o'r Elusen yn drosglwyddadwy.

## 9. CYFARFODYDD CYFFREDINOL

- 9.1 Mae gan aelodau hawl i fynyachu cyfarfodydd cyffredinol yn bersonol neu drwy ddirprwy. Rhaid trosglwyddo'r ffurflenni dirprwyol i'r **Ysgrifennydd** o leiaf 24 awr cyn y cyfarfod. Gelwir cyfarfodydd cyffredinol gan roi o leiaf 14 diwrnod clir o hysbysiad ysgrifenedig gan nodi'n benodol y busnes sydd i'w drafod.
- 9.2 Mae cworwm mewn cyfarfod cyffredinol os yw nifer yr aelodau'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy yn 5 o leiaf (neu 5% o'r Aelodau os yw hyn yn uwch).
- 9.3 Y **Cadeirydd** neu (os yw'r Cadeirydd naill ai'n absennol neu'n methu neu'n gwrthod bod yn bresennol) Aelod arall a etholir gan y rhai sy'n bresennol sy'n cadeirio cyfarfod cyffredinol.
- 9.4 Oni bai y bo'r erthyglau hyn neu'r **Deddfau Cwmnïau** yn gofyn fel arall, penderfynir ar bob mater gan fwyafrif y pleidleisiau a fwir.
- 9.5 Ar wahân i gadeirydd y cyfarfod, sydd, yn achos pleidleisiau cyfartal, ag ail bleidlais neu bleidlais fwrw, mae gan bob Aelod sy'n bresennol, yn bersonol neu drwy ddirprwy, un bleidlais ar bob mater.
- 9.6 Mae penderfyniad y ysgrifenedig sy'n cael ei basio yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, mor ddilys â phenderfyniad a gaiff ei basio mewn gwirionedd mewn cyfarfod cyffredinol.

- 9.7 Mewn CCB, os caiff ei gynnal, bydd yr Aelodau yn:
- (a) derbyn cyfrifon yr Elusen am y **flwyddyn ariannol** flaenorol;
  - (b) derbyn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar weithgareddau'r Elusen yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
  - (c) derbyn ymddeoliad yr Ymddiriedolwyr hynny sy'n dymuno ymddeol neu sy'n ymddeol ar sail gylchol;
  - (d) ethol Ymddiriedolwyr i lenwi'r swyddi gwag sy'n codi;
  - (e) penodi archwilwyr i'r Elusen;
  - (f) gallant roi i unrhyw unigolyn (â'i g(ch)ydsyniad ef neu hi) y teitl anrhydeddus o Noddwr, Llywydd neu Is-Lywydd yr Elusen, a gallant gymryd oddi arnynt unrhyw deitl o'r fath; a
  - (g) gallant drafod a phenderfynu ar unrhyw faterion polisi neu ymdrin ag unrhyw fater arall a roddir ger eu bron gan yr Ymddiriedolwyr.
- 9.8 Gellir galw cyfarfod cyffredinol (heblaw am CCB) ar unrhyw adeg gan yr Ymddiriedolwyr a rhaid ei alw o fewn 21 diwrnod os bydd gofyn iddynt yn dilyn adran 303 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

## 10. YR YMDDIRIEDOLWYR

- 10.1 Mae gan yr Ymddiriedolwyr fel **ymddiriedolwyr elusen** reolaeth dros yr Elusen, ei heiddo a'i harian.
- 10.2 Rhaid i nifer yr Ymddiriedolwyr fod ddim llai na thri, a dim mwy na phymtheg unigolyn.
- 10.3 Penodir hyd at ddeuddeg Ymddiriedolwr gan Aelodau llawn yn unol â'r rheolau a benderfynir gan yr Ymddiriedolwyr a hyd nes y penderfynir i'r gwrthwyneb, bydd y rhagamodau canlynol yn gymwys:
- (a) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr sefydlu tri rhanbarth daearyddol yng Nghymru o ran yr enwebu, fel y rhestrir isod, a bydd pob un o'r rhanbarthau sy'n enwebu yn cael eu gwahodd i benodi'r nifer o Ymddiriedolwyr sydd wedi eu rhestru yn erbyn eu rhanbarthau yn y tabl isod drwy gyfrwng etholiad sy'n gyfyngedig i'r aelodau llawn sydd wedi eu dyrannu i'r rhanbarth hwnnw gan yr Ymddiriedolwyr, a chaiff ei gynnal yn ôl y rheolau y penderfynir arnynt i'r pwrpas gan yr Ymddiriedolwyr ac o dan eu goruchwyliaeth.
  - (b)

Rhanbarth	Nifer yr Ymddiriedolwyr
Gogledd Cymru	4
Gorllewin Cymru	3
De Ddwyrain Cymru	5

- (c) Bydd penodiadau o'r fath yn amodol ar gadarnhad gan yr Elusen yn y CCB.
- (d) Rhaid i'r ymddiriedolwyr a benodir felly yna wasanaethu hyd at ddiwedd y CCB nesaf wedi iddynt wasanaethau am dymor parhaus o dair blynedd, neu cyn hynny os yw unrhyw rai o ragamodau Erthygl 10.7 yn gymwys.
- 10.4 Rhaid i bob Ymddiriedolwr lofnodi datganiad o barodrydd i weithredu fel ymddiriedolwyr elusen o'r Ellusen cyn y gall ef neu hi bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr.
- 10.5 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymddeol ar sail gylchol. Yr Ymddiriedolwyr a fydd yn ymddeol ar sail gylchol fydd y rhai hynny a fydd wedi gwasanaethau am gyfnod parhaus o dair blynedd.
- 10.6 Gellir ailbenodi Ymddiriedolwr sy'n ymddeol am dymor pellach o dair blynedd os na all unrhyw Ymddiriedolwr wasanaethu am dros chwe blynedd yn olynol yn eu swydd ac eithrio lle trefnir fel arall drwy benderfyniad yr Ymddiriedolwyr.
- 10.7 Bydd tymor swydd Ymddiriedolwr yn diweddu'n awtomatig os yw ef neu hi:
  - (a) wedi eu hanghymwyso dan y Ddeddf Elusennau rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusen;
  - (b) yn peidio â bod yn gyfarwyddwr yn rhinwedd unrhyw ragamod o eiddo'r Ddeddf Cwmnïau, neu wedi eu gwahardd yn ôl y gyfraith rhag bod yn gyfarwyddwyr;
  - (c) yn analluog, pa un ai'n feddyliol neu'n gorfforol, o reoli ei f(m)aterion ei hun;
  - (d) yn absennol heb rybudd o gyfarfodydd dilynol sy'n cael eu cynnal o fewn cyfnod o chwe mis, a lle y gofynnir iddynt gan fwyafrif o'r Ymddiriedolwyr eraill i ymddiswyddo;
  - (e) yn ymddiswyddo drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr (ond dim ond os oes dau o leiaf o Ymddiriedolwr yn parhau yn eu swyddi).
- 10.8 Gall yr Ymddiriedolwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw unigolyn sy'n gymwys i gael ei benodi fel Ymddiriedolwr i lenwi swydd wag yn eu mysg, ond mae Ymddiriedolwyr o'r fath a gyfetholwyd yn dal swydd yn unig hyd at etholiad nesaf yr Ymddiriedolwyr, neu hyd y cânt eu symud gan yr Ymddiriedolwyr (pa un bynnag a fydd y cynharaf) neu hyd y gosodir cyfyngiadau eraill
- 10.9 Ni fydd diffyg technegol ym mhenodiad Ymddiriedolwr, nad yw'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol ohono ar y pryd yn dirymu penderfyniadau a gymerir mewn cyfarfod.

## **11. GWEITHREDIADAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

- 11.1 Cworwm mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd tri Ymddiriedolwr.
- 11.2 Caiff cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ei gynnal naill ai'n bersonol neu drwy ddulliau electronig addas y cytunwyd arnynt gan yr Ymddiriedolwyr, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain lle y gall pob cyfrannwr gyfathrebu â'r holl gyfranwyr eraill.



- 11.3 Mae'r Cadeirydd (neu os nad yw'r Cadeirydd yn bresennol neu'n analluog neu'n amharod i fod yn bresennol) neu Ymddiriedolwr arall, wedi ei ddewis gan yr Ymddiriedolwyr, yn llywyddu pob cyfarfod ('cadeirydd y cyfarfod').
- 11.4 Caiff pob mater ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwrir mewn cyfarfod, ond y mae penderfyniad ysgrifenedig a lofnodir gan y mwyafrif o'r Ymddiriedolwyr mor ddilys â phenderfyniad a wneir mewn cyfarfod. I'r pwrpas hwn gellir cynnwys y penderfyniad mewn mwy nag un ddogfen a chânt eu trin fel rhai a wnaed ar ddyddiad y llofnod diwethaf.
- 11.5 Ar wahân i gadeirydd y cyfarfod, sydd ag ail bleidlais neu bleidlais fwrw lle bydd pleidleisiau cyfartal, mae gan bob Ymddiriedolwr un bleidlais ar bob mater.
- 11.6 Nid yw diffyg gweithdrefnol y mae'r Ymddiriedolwyr yn anymwybodol ohono ar y pryd yn dirymu penderfyniadau a wneir mewn cyfarfod.
- 11.7 Os yw nifer yr Ymddiriedolwyr yn gostwng islaw tri bydd gan yr Ymddiriedolwyr hawl:
- (a) i gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol o dan erthygl 10.8; a/neu
  - (b) i alw cyfarfod cyffredinol o'r Aelodau; ac
  - (c) i weithredu i'r diben o gadw ac amddiffyn asedau'r Elusen.
- 11.8 Gall yr Ymddiriedolwyr benodi un neu fwy o'u nifer i'r swydd ddi-dâl o reolwr-gyfarwyddwr neu fel unrhyw swyddog gweithredol di-dâl arall o dan yr Elusen. Gellir gwneud unrhyw benodiad o'r fath ar y telerau y penderfyna'r Ymddiriedolwyr arnynt. Bydd penodiad unrhyw Ymddiriedolwr i swydd weithredol yn dod i ben os yw'n peidio â bod yn Ymddiriedolwr.

## **12. PWERAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Yn ychwanegol at unrhyw bwerau eraill a nodir yn benodol yn yr erthyglau hyn, mae gan yr Ymddiriedolwyr y pwerau canlynol yng ngweinyddiad yr Elusen:

- 12.1 i benodi (a symud) unrhyw unigolyn (a allai fod yn Ymddiriedolwr) i weithredu fel Ysgrifennydd yr Elusen;
- 12.2 penodi (a symud) Cadeirydd, Trysorydd a swyddogion anrhydeddus o'u nifer ac i benderfynu ar eu rolau a'u cyfrifoldebau dirprwyol unigol;
- 12.3 dirprwyo unrhyw rai o'u swyddogaethau i bwyllgorau yn cynnwys dau neu fwy o unigolion a benodwyd ganddynt. Rhaid i dri o leiaf o aelodau pob pwyllgor fod yn Ymddiriedolwyr a rhaid adrodd ar holl weithrediadau pwyllgorau yn byrdlon i'r Ymddiriedolwyr;
- 12.4 gwneud archebion sefydlog sy'n gyson â'r erthyglau hyn a'r Deddfau Cwmnïau er mwyn rheoli gweithrediadau mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn cynnwys amgylchiadau lle gellir mynnu pŵl a rhagnodi ffurf ddirprwyol.
- 12.5 llunio rheolau'n gyson â'r erthyglau hyn a'r Deddfau Cwmnïau i reoli eu gweithrediadau a gweithrediadau pwyllgorau;

- 12.6 llunio rheoliadau sy'n gyson â'r erthyglau hyn a'r Deddfau Cwmnïau i reoli gweinyddiad yr Elusen a'r defnydd o'i sêl (os o gwbl);
- 12.7 llunio rheolau a sefydlu gweithdrefnau ar gyfer Ymddiriedolwyr yn ymddeol ac enwebu a phenodi Ymddiriedolwyr;
- 12.8 sefydlu gweithdrefnau i gynorthwyo datrys anghydfodau neu wahaniaethau yn yr Elusen;
- 12.9 arfer unrhyw rai o bwerau'r Elusen nad ydynt yn eiddo'r Aelodau yn Aelodau.

### **13. COFNODION A CHYFRIFON**

- 13.1 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â gofynion y Deddfau Cwmnïau a'r Ddeddf Elusennau parthed cadw cofnodion ariannol ac arall, yr archwiliad neu'r archwilio annibynnol a'r paratoi a'r trosglwyddo i'r Cofrestrwydd Cwmnïau a'r **Comisiwn**:
  - (a) dychwelebau blynyddol;
  - (b) adroddiadau blynyddol;
  - (c) datganiadau blynyddol ar y cyfrifon.
- 13.2 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw cofnodion cywir o'r:
  - (a) holl weithrediadau mewn cyfarfodydd cyffredinol;
  - (b) holl weithrediadau cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
  - (c) holl adroddiadau pwyllgorau; a'r
  - (d) holl gyngor proffesiynol a gafwyd.
- 13.3 Rhaid sicrhau bod y cofnodion ariannol perthynol i'r Elusen ar gael i'w harchwilio gan unrhyw Ymddiriedolwr ar unrhyw adeg yn ystod oriau swyddfa arferol ac y gallant fod ar gael i'w harchwilio gan Aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr os felly y penderfyna'r Ymddiriedolwyr.
- 13.4 Rhaid cyflwyno copi o ddatganiad diweddaraf yr Elusen sydd ar gael i unrhyw Ymddiriedolwr neu Aelod. Rhaid hefyd cyflwyno copi, o fewn deufis, i unrhyw berson arall sy'n gwneud cais ysgrifenedig ac yn talu costau rhesymol yr Elusen.

### **14. Y DULL CYFATHREBU I'W DDEFNYDDIO**

- 14.1 Yn ddarostyngedig i'r erthyglau hyn, gellir anfon neu gyflwyno unrhyw beth a anfonir neu a gyflwynir gan neu i'r Elusen o dan yr erthyglau hyn mewn unrhyw ffordd y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei ddarparu ar ei gyfer yn achos dogfennau neu wybodaeth sydd wedi eu hawdurdodi neu lle y mae hangen yn ôl unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf honno eu hanfon neu eu cyflwyno gan neu i'r Elusen, a bydd darpariaethau cyfathrebu'r cwmni yn Neddf Cwmnïau 2006 yn gymwys i unrhyw beth a anfonir neu a gyflwynir o dan yr erthyglau hyn.

- 14.2 Tybir bod cyfathrebiad a anfonwyd neu a gyflenwyd gan yr Elusen wedi ei dderbyn gan y derbynnydd bwriadedig.
- (a) os cafodd ei anfon drwy'r post, 24 awr wedi ei bostio;
  - (b) os yw wedi ei drosgludo â llaw, ar adeg y trawsgludiad hwnnw;
  - (c) os yw'n cael ei yrru'n electronig, yn syth wedi ei anfon; ac
  - (d) os yw ar gael ar wefan, pan dderbyniwyd hysbysiad o bresenoldeb y cyfathrebiad ar y wefan gan y derbynnydd bwriadedig, neu, os bydd yn hwyrach, ar y dyddiad yr ymddangosodd y cyfathrebiad ar y wefan.
- 14.3 Yn achos cyfathrebiad a anfonwyd neu a gyflenwyd gan yr elusen, gall yr Elusen sicrhau bod y dogfennau neu'r wybodaeth ar gael ar wefan yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.
- 14.4 Yn ddarostyngedig i'r erthyglau hyn, gall unrhyw hysbysiad neu ddogfen sydd i'w anfon neu ei gyflenwi i Ymddiriedolwr mewn cysylltiad â'r Ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau hefyd gael eu hanfon neu eu cyflenwi drwy'r cyfrwng y mae'r Ymddiriedolwr hwnnw wedi ei nodi yn achos hysbysiau neu ddogfennau o'r fath dros gyfnod arbennig.
- 14.5 Gall Ymddiriedolwr gytuno â'r Elusen y dylid ystyried bod hysbysiau neu ddogfennau a anfonir at yr Ymddiriedolwr hwnnw mewn ffordd benodol wedi eu derbyn o fewn amser penodol i'w hanfon, ac y dylai'r amser a nodir yn benodol fod yn llai na 48 awr.

## 15. INDEMNIAD

Rhaid i'r Elusen ddigolledu pob Ymddiriedolwr (fel cyfarwyddwr) yr Elusen yn erbyn unrhyw ddyled yr aiff ef neu hi iddo yn rhinwedd yn y swydd honno i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

## 16. DEHONGLIAD

- 16.1 Yn yr erthyglau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn dynodi ystyr gwahanol:

<b>'CCB'</b>	golyga hyn gyfarfod cyffredinol blynyddol yr Elusen;
<b>'yr erthyglau hyn'</b>	golyga hyn erthyglau cymdeithasiad yr Elusen;
<b>'Cadeirydd'</b>	golyga hyn gadeirydd yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd;
<b>'yr Elusen'</b>	golyga hyn y cwmni a reolir gan yr erthyglau hyn;
<b>'Y Ddeddf Elusennau'</b>	golyga hyn Ddeddf Elusennau 2011;
<b>'ymddiriedolwr elusen'</b>	mae iddo'r ystyr a ragnodir gan adran 177 y Ddeddf Elusennau;
<b>'y Comisiwn'</b>	golyga hyn Gomisiwn Elusennau Lloegr a Chymru;
<b>'y Deddfau Cwmnïau'</b>	golyga hyn y Deddfau Cwmnïau (fel y diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006) cyn belled ag y maent yn

	gymwys i'r Elusen;
<b>'Ymddiriedolwr â buddiannau'n gwrthdaro'</b>	Golyga hyn Ymddiriedolwr naill ai lle y mae, neu lle y gall yn rhesymol, wrthdrawiad budd godi yn ei gylch oherwydd bod y person hwnnw yn derbyn, neu mewn sefyllfa i dderbyn, budd (ac eithrio taliad o bremiwm am yswiriant indemniad) gan yr Elusen, neu lle y mae ganddo ryw fudd neu ddyletswydd mewn mater i'w benderfynu, neu mewn perthynas â gwybodaeth sydd yn gyfrinachol i'r Elusen;
<b>'person cysylltiedig'</b>	Golyga hyn mewn perthynas ag Ymddiriedolwr, unrhyw wŷr/gwraig, partner sifil, partner, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, mam-gu/tad-cu neu wŷr i'r Ymddiriedolwr hwnnw, unrhyw gwmni y mae'r Ymddiriedolwr hwnnw'n aelod neu'n gyflogai, ac unrhyw gwmni lle mae'r Ymddiriedolwr hwnnw'n gyfarwyddwr, yn gyflogai neu'n gyfranddaliwr sydd â diddordeb buddiannol mewn dros 1% o gyfalaf y cyfrannau;
<b>'ceidwad'</b>	golyga hyn berson neu gorff sy'n cymryd cystodaeth ddiogel o asedion, dogfennau neu gofnodion sy'n perthyn iddynt;
<b>'dogfen'</b>	mae hyn yn cynnwys, oni nodir yn benodol fel arall, unrhyw ddogfen a anfonir neu a gyflenwir, ar ffurf electronig;
<b>'ffurf electronig'</b>	mae i hwn yr ystyr a roddir iddo yn adran 1168 Deddf Cwmnïau 2006;
<b>'arbenigwr ariannol'</b>	golyga hyn unigolyn, cwmni neu fusnes sydd wedi eu hawdurdodi i roi cyngor ar fuddsoddi o dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000;
<b>'blwyddyn ariannol'</b>	golyga hyn flwyddyn ariannol yr Elusen;
<b>'cwmni'</b>	mae hyn yn cynnwys partneriaeth cyfrifoldeb cyfyngedig;
<b>'yswiriant indemniad'</b>	golyga hyn yswiriant yn erbyn cyfrifoldeb personol unrhyw Ymddiriedolwr am waith neu anwaith sydd, neu sydd yn honedig, yn dor-ymddiriedaeth neu'n dor-dyletswydd, oni bai i'r Ymddiriedolwr perthnasol fod yn gwybod neu'n ddi-hid ynghylch a oedd y gwaith neu'r anwaith yn dor-ymddiriedaeth neu'n dor-cyfraith;
<b>'aelodaeth anffurfiol'</b>	mae hyn yn cyfeirio at gefnogwr y gellid ei alw'n "aelod" ond nad yw'n aelod cwmni o'r Elusen;
<b>'budd materol'</b>	golyga hyn fudd nad yw o reidrwydd yn ariannol, ond sydd â gwerth ariannol;
<b>'Aelod ac'</b>	mae'r rhain yn cyfeirio at aelodaeth cwmni o'r

<b>aelodaeth'</b>	Elusen;
<b>'mis'</b>	golyga hyn fis calendr;
<b>'cwmni enwebai'</b>	golyga hyn gorff sydd wedi ei ymgorffori, sydd wedi ei gofrestru neu sydd â lle busnes sefydledig yn Lloegr neu Gymru;
<b>'Amcanon'</b>	golyga hyn Amcanion yr Elusen fel y'u diffinnir yn erthygl 2 yr erthyglau hyn;
<b>'Ysgrifennydd'</b>	golyga hyn y person (os o gwbl) a benodir gan yr Ymddiriedolwyr i fod yn ysgrifennydd yr elusen neu berson arall o'r fath sydd yn cyflawni swyddogaethau ysgrifennydd yr Elusen;
<b>'Tanysgrifwyr'</b>	golyga hyn y tanysgrifwyr i Femorandwm Cymdeithasiad yr Elusen;
<b>'masnachu trethadwy'</b>	golyga hyn barhau mewn masnach neu fusnes i'r prif bwrpas o godi arian ac nid i'r bwrpas o gyflawni'r Amcanion mewn gwirionedd; mae elw achosion o'r fath yn ddarostyngedig i'r dreth gorfforaethol.
<b>'Ymddiriedolwr'</b>	golyga hyn gyfarwyddwr o'r Elusen a golyga 'Ymddiriedolwyr' y cyfarwyddwyr;
<b>'ysgrifenedig' neu 'mewn ysgrifen'</b>	cyfeiria hyn at ddogfen ddarllenadwy ar bapur, yn cynnwys neges ffacs;
<b>'blwyddyn'</b>	golyga hyn flwyddyn galendr.

- 16.2 Mae gan ymadroddion a ddiffinnir yn y Deddfau Cwmnïau yr un ystyr, oni bai fod yr erthyglau hyn nodi'n benodol i'r gwrthwyneb.
- 16.3 Mae'r cyfeiriadau i Ddeddf Seneddol yn rhai i'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd neu'i hail-weithredwyd o bryd i'w gilydd ac i unrhyw is-ddeddfwriaeth a lunnir yn ei sgil.